

RHYBUDD o Benderfyniadau Cyfarfod Rhithiol Arbennig o'r Pwyllgor Gwaith a gynhaliwyd ddydd Mercher, 9 Mawrth 2022

Cyhoeddir y Rhybudd hwn am 5:00pm dydd Llun 14 Mawrth, 2022. Rhaid cyflwyno unrhyw geisiadau i alw i mewn unrhyw benderfyniad i'r Prif Weithredwr erbyn dim hwyrach na 5:00pm dydd Llun, 21 Mawrth, 2022. Daw'r penderfyniadau i rym (os na fydd yna gais dilys i'w galw i mewn) ddydd Mawrth, 22 Mawrth, 2022.

Presennol: Cynghorydd R Dew, Llinos Medi Huws (Cadeirydd), R. Meirion Jones, R G Parry OBE FRAGS, Dafydd Rhys Thomas, Ieuan Williams, Alun W Mummery, Carwyn Jones a Robin Williams

Hefyd yn bresennol: Cynghorwyr Glyn Haynes, Gwilym O. Jones, Dafydd Roberts

Ymddiheuriadau: Dim

(9:30 y.b. - 10:30 y.b.)

| | |
|--------------------------------|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | 3 Cynllun Tuag at Carbon Sero Net Cyngor Sir Ynys Môn 2022-2025 Adroddiad gan y Dirprwy Brif Weithredwr |
| PENDERFYNIAD | Penderfynwyd cefnogi Cynllun Tuag at Carbon Sero Net Cyngor Sir Ynys Môn 2022-2025. |
| RHESWM AM Y PENDERFYNIAD | Gosod cyfeiriad strategol a gweithredol i'r Cyngor ymateb i newid hinsawdd am y tair blynedd nesaf |
| DATGANIAD O DDIDDORDEB | Dim |
| CANIATÂD ARBENNIG WEDI EI ROI? | Dim |
| YMGYNGHORI, OS O GWBL | Fel yr amlinellir yn yr adroddiad ysgrifenedig |
| A OES MODD EI ALW I MEWN? | Amherthnasol. Mater yn amodol ar gymeradwyaeth y Cyngor Llawn. |

| | |
|------------------------|--|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | 4 Cynllun Gwefru Cerbydau Trydan Ynys Môn Adroddiad gan Bennaeth Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo |
| PENDERFYNIAD | Penderfynwyd – |

| | |
|--------------------------------|--|
| | <ul style="list-style-type: none"> • Cymeradwyo'r Grynodedb o Gynllun Gwefru Cerbydau Trydan Ynys Môn (mae'r ddogfen dechnegol fanylach Cynllun Gwefru Cerbydau Trydan Ynys Môn, ar gael ar gais). • Cymeradwyo datblygu a chyflwyno ceisiadau am gyllid allanol i symud ymlaen â'r cyflawni. • Cefnogi ystyriaeth o ofynion seilwaith gwefru cerbydau trydan yn Strategaeth Gyfalaf newydd y Cyngor (i'w datblygu) ac ar sail achosion unigol pan fydd prosiectau seilwaith cyfalaf yn cael eu datblygu a'u gweithredu (gan gynnwys tai, unedau busnes, moderneiddio ysgolion, darpariaeth gofal ychwanegol, adfywio canol trefi a seilwaith arfordirol / twristiaeth ac ati.) |
| RHESWM AM Y PENDERFYNIAD | Hwyluso ceisiadau am gyllid allanol i symud ymlaen â chyflawni'r Cynllun Gwefru Trydanol |
| DATGANIAD O DDIDDORDEB | Dim |
| CANIATÂD ARBENNIG WEDI EI ROI? | Dim |
| YMGYNGHORI, OS O GWBL | Fel yr amlinellir yn yr adroddiad ysgrifenedig |
| A OES MODD EI ALW I MEWN? | Oes |

| | |
|--------------------------|--|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | 5 Adroddiad Drafft Asesiad Anghenion Poblogaeth Gogledd Cymru 2022 Adroddiad gan Gyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol |
| PENDERFYNIAD | Penderfynwyd argymell i'r Cyngor Llawn gymeradwyo'r Adroddiad Drafft Asesiad Anghenion Poblogaeth Gogledd Cymru 2022. |
| RHESWM AM Y PENDERFYNIAD | Yn unol â gofynion Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 |

| | |
|--------------------------------|--|
| DATGANIAD O DDIDDORDEB | Dim |
| CANIATÂD ARBENNIG WEDI EI ROI? | Dim |
| YMGYNGHORI, OS O GWBL | Fel yr amlinellir yn yr adroddiad ysgrifenedig |
| A OES MODD EI ALW I MEWN? | Amherthnasol. Mater er cymeradwyaeth y Cyngor Llawn. |

EITEM GYFRINACHOL

| | |
|--------------------------------|--|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | 7 Datblygiad Gofal Ychwanegol - Tyddyn Mostyn, Porthaethwy Adroddiad gan Bennaeth y Gwasanaethau Tai |
| PENDERFYNIAD | Penderfynwyd symud ymlaen i ddatblygu cynllun Gofal Ychwanegol ar dir Cyngor Sir Ynys Môn yn Nhyddyn Mostyn, Porthaethwy. |
| RHESWM AM Y PENDERFYNIAD | Gwella'r adnodd cymunedol i gefnogi cyfleoedd i fyw'n annibynnol |
| DATGANIAD O DDIDDORDEB | Dim |
| CANIATÂD ARBENNIG WEDI EI ROI? | Dim |
| YMGYNGHORI, OS O GWBL | Fel yr amlinellir yn yr adroddiad ysgrifenedig |
| A OES MODD EI ALW I MEWN? | Oes |

EITEM GYFRINACHOL

| | |
|------------------------|--|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | 9 Moderneiddio Ysgolion – Ardal Llangefni: Achos Busnes Ysgol y Graig Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc |
| PENDERFYNIAD | Penderfynwyd – <ul style="list-style-type: none"> • Cymeradwyo'r Achos Busnes Llawn ar gyfer y bloc Cyfnod Sylfaen newydd yn Ysgol y Graig. • Cymeradwyo cyflwyno'r Achos |

| | |
|---------------------------------------|---|
| | <p>Busnes Llawn i Lywodraeth Cymru.</p> <ul style="list-style-type: none"> • Cymeradwyo clustnodi derbyniadau cyfalaf ar gyfer adeiladu bloc Cyfnod Sylfaen newydd yn Ysgol y Graig. • Dirprwyo awdurdod i'r Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/ Swyddog Adran 151 a'r Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro i ddiwygio'r Achos Busnes Llawn os oes angen - os nad yw'r newidiadau'n arwain at newid sylweddol (o ran polisi, egwyddorion, cyfraniad ariannol, risgiau a niwed i drydydd parti). • Neilltuo arian datblygwyr o ddatblygiadau Tai o fewn dalgyloch Ysgol Y Graig i gyfrannu tuag at gost y prosiect. • Ymrwmo i ariannu gofyniad cyfalaf y Cyngor – tuag at gost y prosiect. • Ariannu costau trosiannol tymor byr sy'n gysylltiedig â'r prosiect . |
| RHESWM AM Y PENDERFYNIAD | Symud y Rhaglen Moderneiddio Ysgolion yn ei blaen yn ardal Llangefni |
| DATGANIAD O DDIDDORDEB | Dim |
| CANIATÂD ARBENNIG WEDI EI ROI? | Dim |
| YMGYNGHORI, OS O GWBL | Fel yr amlinellir yn yr adroddiad ysgrifenedig |
| A OES MODD EI ALW I MEWN? | Oes |